**Fforwm Cymunedau Ffydd**
**Cofnodion Cyfarfod 20 Ebrill 2015**
**Ystafell Harlech, Parc Cathays**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Prif Weinidog Cymru | Cadeirydd |
| Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi | Dirprwy Gadeirydd |
| Archesgob Cymru | Yr Eglwys yng Nghymru |
| Peter Richards | Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru |
| Aled Edwards | Eglwysi Ynghyd yng Nghymru |
| Jim Stewart | Cynghrair Efengylaidd Cymru |
| Elfed Godding | Cynghrair Efengylaidd Cymru |
| Saleem Kidwai | Cyngor Mwslimiaid Cymru |
| Stanley Soffa | Ffydd Iddewig |
| Lisa Gerson | Ffydd Iddewig |
| Naran Patel | Cyngor Hindwiaid Cymru |
| Nirmala Pisavadia | Cyngor Hindwiaid Cymru |
| Christine Abbas | Cyngor Baha'i Cymru |
| Viv Bartlett | Cyngor Baha'i Cymru |

**Swyddogion yn Bresennol:**

| | |
|---|---|
| Jo Glenn | Is-adran Dyfodol Tecach |
| Andrea Adams | Is-adran Dyfodol Tecach |
| Beverley Morgan | Pennaeth y Tîm Polisi Trechu Tlodi |
| Lucy Corfield | Pennaeth Tîm Gweithredu a Gwrthsefyll y Newid yn yr Hinsawdd |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| George Stack | Archesgob Caerdydd |
| Ahmed Darwish | Cyngor Mwslimiaid Cymru |
| Surinder Channa | Ffydd Sikh |
| Alan Bayes | Cyngor Rhyng-ffydd |
| Nordzin Pamo | Cyngor Bwdaidd Cymru |

**Croeso a Chyflwyniadau**

1. Agorodd Prif Weinidog Cymru (y Prif Weinidog) y cyfarfod trwy gyfeirio at y newyddion trist am farwolaeth Kathryn Delpak MBE. Dywedodd y Prif Weinidog y bydd yn chwith iawn heb gyngor a doethineb Kathryn ynghylch materion ffydd mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Roedd Kathryn yn un o ddau gynrychiolydd y ffydd Baha'i ar y Fforwm Cymunedau Ffydd ac fe wnaeth gyfraniad enfawr i'r gwaith rhyng-ffydd yng Nghymru. Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Fforwm ei fod wedi ysgrifennu at deulu Kathryn i estyn ei gydymdeimlad dwysaf am eu colled.

2. Croesawodd y Prif Weinidog bawb i'r cyfarfod.

**Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

3. Roedd cofnodion y cyfarfod blaenorol wedi'u dosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.

**Pwyntiau Gweithredu o'r cyfarfod diwethaf**

4. Roedd crynodeb o'r pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf ynghyd â diweddariadau wedi'u hanfon at yr aelodau cyn y cyfarfod. Cafodd y rhain eu nodi.

**Materion yn Codi**

**Cyrff cyhoeddus i fod yn ymwybodol o'r gwyliau ffydd y mae'r calendr lleuadol yn effeithio arnynt**

5. Yn y cyfarfod diwethaf gofynnodd y Prif Weinidog am gael dychwelyd at fater ymwybyddiaeth ysgolion a chyrff cyhoeddus o'r gwyliau ffydd y mae calendrau lleuadol yn effeithio arnynt.

6. Cadarnhaodd y Prif Weinidog nad oes canllawiau ar gael i ysgolion; fodd bynnag, mewn ystyr ehangach mae cyfleoedd eisoes yn bodoli o fewn y Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm, trwy'r fframwaith enghreifftiol ar gyfer AG, i ysgolion gyflwyno testunau ar natur gwyliau a defodau crefyddol amrywiol, a allai gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â gwyliau lleuadol a rhai eraill sy'n digwydd yn ystod y tymor. Cyfrifoldeb ysgolion yw penderfynu pa adnoddau a darparwyr arbenigol y maent hwy'n dewis eu defnyddio i gyflawni eu rhwymedigaethau cwricwlaidd.

7. Cyfeiriodd y Prif Weinidog at lansiad adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ym mis Mawrth ar y modd y mae crefydd neu gred yn effeithio ar brofiadau pobl yn y gweithle a'u profiad o ddefnyddio'r gwasanaethau a'r cyfleusterau y mae eu hangen arnynt yn eu bywyd beunyddiol. Roedd bron i 2,500 o bobl wedi ymateb i'r cais am dystiolaeth. Bydd y Comisiwn yn defnyddio'r canfyddiadau i gynhyrchu canllawiau i wella dealltwriaeth cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau am y gyfraith a sut i ymdrin â'r materion y mae'r adroddiad wedi'u hamlygu. Bydd y Comisiwn yn defnyddio canlyniadau'r cais am dystiolaeth i oleuo'i adroddiad ar ddigonolrwydd y deddfau sy'n gwarchod crefydd neu gred, a fydd yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

8. Yn ystod y drafodaeth fe wnaed y pwyntiau canlynol:

- Bydd Grŵp Ymgynghorol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ailddrafftio canllawiau i gyrff cyhoeddus ar gyfer y gweithle ac ar gyfer ymarferion recriwtio ynghylch gwyliau y mae calendrau lleuadol yn effeithio arnynt. Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi tair dogfen gyfarwyddyd yn 2015.

- Mae sawl ffydd yn dilyn calendr lleuadol ac felly mae'r dyddiadau cadwraeth yn newid bob blwyddyn. Mae ysgolion a cholegau'n ei chael yn anodd cynllunio ar gyfer y cyfnod hwn yn enwedig yn ystod cyfnodau arholiadau. Mae llawer o wahanol wyliau ffydd a byddai'n gryn her i ysgolion a cholegau nodi pob un ohonynt.

- Mae'r Cyngor Iddewig a Chyngor Hindwiaid Cymru wrthi'n cynhyrchu calendrau ffydd i'w defnyddio mewn ysgolion a cholegau.

- Cofnodir bod myfyrwyr yn absennol os nad ydynt yn mynychu yn ystod gwyliau ffydd. Mewn rhai achosion mae cadwraeth yn golygu ymprydio neu ymatal rhag teithio neu weithio.

- Dylid canfod a yw sefyllfa statudol addysg grefyddol yng Nghymru'n wahanol i weddill y DU.

9. Datganodd y Prif Weinidog y bydd yn comisiynu papur gan swyddogion yn yr Adran Addysg a Sgiliau ar gyfer y cyfarfod nesaf. Bydd y papur yn ymdrin â'r sefyllfa bresennol yng Nghymru o ran amser o'r ysgol neu'r coleg ar gyfer gwyliau crefyddol ac yn ei chymharu â'r sefyllfa yn Lloegr. Bydd yn ystyried pa ganllawiau y gellid eu darparu i sicrhau dull cyson fel nad yw plant a myfyrwyr hŷn yn cael eu cosbi am gymryd diwrnod o'r ysgol neu o'r coleg i fynychu gwyliau crefyddol. Bydd hefyd yn ystyried a oes ffyddoedd gwahanol yn cael eu cydnabod yng Nghymru o'i chymharu â gweddill y DU. **(Cam Gweithredu: Swyddogion yn yr Adran Addysg a Sgiliau)**

**Eitem 1 ar yr agenda: Cyflwyniad gan Beverley Morgan Pennaeth y Tîm Polisi Trechu Tlodi ar Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig Cymru.**

10. Cyflwynodd y Prif Weinidog gefndir Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig Cymru, a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru ar 27 Mawrth. Mae'r Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig yn ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r uchelgais i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Mae heriau anferth yn gysylltiedig â chyflawni'r ymrwymiad hwn, yn enwedig yng ngoleuni effeithiau'r Diwygiadau Lles. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wneud popeth a all ac i ddefnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i fynd i'r afael â'r mater hwn.

11. Dywedodd y Gweinidog, er nad oes cyswllt uniongyrchol rhwng crefydd a thlodi, ein bod yn gwybod bod rhai grwpiau ethnig penodol mewn mwy o berygl o fyw mewn tlodi. Yn y Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig, rydym yn ymrwymo i wneud mwy i gefnogi'r grwpiau hyn. Mae'n hollbwysig nad yw'r unigolion hyn yn cael eu gadael ar ôl wrth inni fynd ati i drechu tlodi yng Nghymru, ymrwymiad sydd hefyd yn cael ei adlewyrchu yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru.

12. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn hanfodol nad yw'r Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig yn cael ei hystyried ar wahân. Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi fydd y dull cyflawni allweddol o hyd ar gyfer y Strategaeth. Mae'r Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Gweithredu yn darparu'r cyfle i nodi unrhyw gamau gweithredu ac ymrwymiadau newydd, ar gyfer cyflawni amcanion strategol a phum blaenoriaeth y Strategaeth Tlodi Plant, ar sail barhaus.

13. Eglurodd y Gweinidog nad yw Llywodraeth Cymru yn gallu cyflawni'r agenda hon ar ei phen ei hun a'i bod yn dal i fod yn gwbl ymrwymedig i ganlyn arni â dull cydweithredol o drechu tlodi plant yng Nghymru. Mae'r

Strategaeth yn amlygu'r angen i gydweithio ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, y Sector Preifat a phartneriaid allanol.

14. Rhoddodd Beverley drosolwg o ddull Llywodraeth Cymru o drechu tlodi plant. Mae oddeutu 700,000 o bobl yn byw mewn tlodi yng Nghymru, y mae 200,000 ohonynt yn blant. Mae tlodi'n uwch yng Nghymru na gweddill y DU.

15. Mae ffocws y Prif Weinidog ar drechu tlodi wedi helpu swyddogion a Gweinidogion eraill i gynnal ffocws cryf ar wella canlyniadau aelwydydd incwm isel. Mae swyddogion yn yr Is-adran Trechu Tlodi yn cydweithio'n agos gydag Adrannau eraill, gyda phwyslais arbennig ar gyrraedd y targedau a'r cerrig milltir sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi.

16. Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio tlodi fel cyflwr tymor hir o beidio â bod ag adnoddau digonol i fforddio bwyd, amodau byw neu amwynderau rhesymol neu gymryd rhan mewn gweithgareddau (megis mynediad at gymdogaeth a mannau agored deniadol) mae eraill mewn cymdeithas yn eu derbyn fel mater o drefn. Mae plant o deuluoedd sy'n byw mewn tlodi mewn mwy o berygl o fod ag iechyd gwael, pwysau geni isel ac maent yn llai tebygol o wneud yn dda o ran cyrhaeddiad addysgol. Mae gan Lywodraeth Cymru hanes cryf o liniaru effeithiau tlodi a buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar.

17. Mae tlodi'n ddrud – efallai y bydd teuluoedd yn methu cael mynediad at nwyddau a gwasanaethau rhatach, ac efallai y byddant hefyd yn talu cyfran fwy o'u hincwm ar bethau megis bwyd a gwresogi. Mae aelwydydd heb waith mewn perygl yn arbennig o fyw mewn tlodi, ond mae hefyd yn bwysig cydnabod problem gynyddol tlodi mewn gwaith.

18. Mae Strategaeth Tlodi Plant Ddiwygiedig Cymru yn ailddatgan uchelgais Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Mae hefyd yn ailddatgan y tri amcan strategol a oedd wedi'u cynnwys yn Strategaeth 2011, a oedd yn canolbwyntio ar: (i) lleihau diffyg gwaith (ii) cynyddu sgiliau, a (iii) lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd, addysg a chanlyniadau economaidd.

19. Hefyd, mae'r Strategaeth yn nodi dau amcan strategol newydd:

- Defnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i greu economi a marchnad lafur gref sy'n cefnogi'r agenda trechu tlodi ac yn lleihau tlodi mewn gwaith yng Nghymru.

- Helpu teuluoedd sy'n byw mewn tlodi i gynyddu incwm eu haelwydydd trwy gyngor ynghylch dyledion a chyngor ariannol, camau gweithredu i fynd i'r afael â'r premiwm tlodi lle mae aelwydydd ar incwm isel yn talu mwy am nwyddau a gwasanaethau nag aelwydydd ar incwm uwch a chamau gweithredu i liniaru effeithiau'r diwygiadau lles.

20. Mae'r Strategaeth hefyd yn ymrwymo i ddatblygu camau gweithredu newydd i gefnogi pum blaenoriaeth allweddol ar gyfer trechu tlodi plant. Y blaenoriaethau hyn yw: tlodi bwyd, gofal plant, tlodi mewn gwaith, tai ac adfywio, lliniaru effeithiau'r diwygiadau lles.

21. Estynnodd Beverley wahoddiad i'r Fforwm ystyried sut y gall grwpiau ffydd gydweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni canlyniadau gwell yn y gymuned, mewn perthynas â threchu tlodi a gwella canlyniadau aelwydydd ar incwm isel. Gofynnodd Beverley i'r Fforwm ystyried sut y gallai'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gan grwpiau ffydd gysylltu â rhaglenni allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlodi – yn enwedig o ran gwaith sy'n gysylltiedig ag amcanion y Strategaeth Tlodi Plant a'i phum blaenoriaeth allweddol.

22. Yn ystod y drafodaeth fe wnaed y pwyntiau canlynol:

- Mae gan Grwpiau Ffydd hanes hir o gydweithio gydag aelwydydd incwm isel a grwpiau difreintiedig, megis banciau bwyd, gwirfoddolwyr sgiliau, tlodi. Pan fo pobl yn dlawd, mae ganddynt lai o ddewisiadau. Gall codi pobl allan o dlodi ddarparu opsiynau a dewisiadau. Yng Nghymru, roedd gennym hanes o ddiwydiant trwm; yn awr mae ein diwydiannau wedi newid.

- Dylai'r sector cyhoeddus a'r sector preifat roi cyhoeddusrwydd i rôl undebau credyd. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn gweithio gyda'r gwasanaeth carchardai i godi proffil undebau credyd yng ngharchardai Caerdydd ac Abertawe. Mae undeb credyd yn Abertawe sy'n darparu gwasanaethau sy'n bodloni meini prawf Islamaidd ac mae undebau credyd wedi cael eu sefydlu mewn rhai carchardai. Datganodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi bod cynhadledd ar undebau credyd yn cael ei chynnal ym mis Mehefin ac y byddai hi'n trefnu bod gwahoddiad yn cael ei anfon at aelodau'r Fforwm. **(Gweithredu – Yr Ysgrifenyddiaeth)**

- Un her i fanciau bwyd a gwasanaethau cysylltiedig yw sicrhau eu bod yn datblygu dull strategol o ddarparu. Mae angen i gymorth fod ar gael yn y cymunedau ac arnynt fwyaf o'i angen.

- Mae enghreifftiau o waith y mae cymunedau ffydd yn rhan ohono'n cynnwys y prosiect Dinas Noddfa a'r casgliadau mewn mosgiau ac eglwysi ar gyfer banciau bwyd.

- Ceir agweddau gwahanol ar dlodi, ac mae tlodi ysbrydol yn un ffactor. Darparodd Viv Bartlett ddatganiad ysgrifenedig gan y Gymuned Ryngwladol Baha'i ynghylch agweddau ar dlodi ysbrydol.

23. Crynhodd y Prif Weinidog y drafodaeth trwy ddatgan bod tlodi'n gysyniad cymharol a'i fod yn fater pwysig yng Nghymru lle mae cymunedau yn dygymod â chanlyniadau newid economaidd. Os gallwn gadw pobl allan o dlodi bydd ganddynt yr hyder i gyfrannu i'w cymunedau.

24. Dywedodd Beverley y byddai'n codi'r pwyntiau a wnaed yn y cyfarfod gyda swyddogion polisi perthnasol. Roedd Beverley wedi cael gwahoddiad i ymweld â'r prosiect Dinas Noddfa, i roi cyflwyniad yng nghyfarfod y prosiect Dinas Noddfa.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Cyflwyniad gan Lucy Corfield Pennaeth Gweithredu a Gwrthsefyll y Newid yn yr Hinsawdd ar Bolisi ar y Newid yn yr Hinsawdd – Effeithiau ar Gymunedau Agored i Niwed**

25. Dywedodd y Prif Weinidog, er bod y newid yn yr hinsawdd yn ffenomenon byd-eang, bod yr effeithiau'n cael eu teimlo ar lefel leol. Yn aml gall gael effaith anghymesur ar y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas; y rhai â gallu cyfyngedig i ymaddasu i dywydd eithafol a'r newid yn yr hinsawdd. Gall hyn gynnwys pobl sy'n byw mewn amddifadedd, y rhai llai addysgedig a'r rhai sy'n sâl yn gorfforol neu'n feddyliol.

26. Gall cartrefi mewn ardaloedd amddifadus fod yn hŷn, wedi mynd â'u pen iddynt a gall y gost o'u haddasu fod yn uwch. Gall lefelau incwm is ei gwneud yn anos i gymunedau ac unigolion gymryd camau addasu eu hunain, a phan geir digwyddiadau megis llifogydd, gall gymryd mwy o amser i gymunedau tlotach ddod drostynt, sy'n hwyhau'r effeithiau.

27. Gall grwpiau ffydd gyflawni rôl allweddol o ran gweithio gyda chymunedau lleol – gan adnabod risgiau lleol a helpu i feithrin cadernid lleol. Mae tosturi wrth eraill yn edefyn cyffredin mewn ffyddoedd ac mae codi ymwybyddiaeth o'r effeithiau dynol ar eraill y tu hwnt i'n ffiniau lleol a rhyngwladol yn ystyriaeth allweddol hefyd ac yn cysylltu ag egwyddorion a nodau Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

28. Rhoddodd Lucy Corfield, Pennaeth Gweithredu a Gwrthsefyll y Newid yn yr Hinsawdd gyflwyniad ar rôl y cymunedau ffydd o ran y newid yn yr hinsawdd. Eglurodd Lucy mai ystyr hinsawdd yw cyfartaledd y tywydd dros gyfnod hir (30 mlynedd fel arfer), ac mai tueddiadau yn yr amodau cyfartalog hyn yw'r newid yn yr hinsawdd. Tywydd yw'r hyn yr ydym yn ei brofi o ddydd i ddydd a gall fod yn newidiol. Mae'r tywydd eisoes yn newid ac mae'r tymheredd cyfartalog yng Nghymru wedi cynyddu 0.7 gradd canradd. Cafwyd gostyngiad o 24% mewn glawiad yn ystod yr haf yng Nghymru (1914-2006) a 2014 oedd y flwyddyn gynhesaf i gael ei chofnodi – yn fyd-eang ac yn y DU.

29. Dywed y Panel Rhynglywodraethol ar y newid yn yr hinsawdd y bydd y newid yn yr hinsawdd yn cynyddu risgiau presennol ar gyfer diogelwch bwyd, anghydraddoldebau iechyd ac y bydd hefyd yn creu risgiau newydd. Mae'r risgiau hyn wedi'u dosbarthu'n anghyfartal ac maent yn fwy ar y cyfan i bobl a chymunedau difreintiedig.

30. Amlygodd Sefydliad Joseph Rowntree y ffaith bod tlodi'n ffactor pwysig sy'n cynyddu peryglon cymdeithasol llifogydd a thywydd poeth a bod

angen inni ystyried datrysiadau sydd nid yn unig yn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ond sydd hefyd yn lleihau anghydraddoldebau presennol.

31. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn amcanu at greu economi carbon isel gynaliadwy i Gymru, at wneud datblygu cynaliadwy yn ganolog i waith y Llywodraeth, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli a rhoi cymorth i ymaddasu'n effeithiol i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd trwy weithredu Strategaeth Llywodraeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd.

32. Adroddodd Llywodraeth Cymru ar ei chynnydd yn ei Hadroddiad Blynyddol yn 2014, a oedd yn dangos ein bod wedi cyrraedd ein targed ar gyfer gostyngiad o 3%; fodd bynnag, mae angen gweithredu pellach i gyrraedd ein targed o 40%.

33. Mae Cymru wedi cyflwyno polisïau arloesol mewn nifer o feysydd megis bod yr ardal gyntaf yn y DU i gyflwyno tâl am fagiau plastig, ennill gwobrau rhyngwladol am ein Rhaglen Cymru o Blaid Affrica, lle'r ydym yn plannu un goeden yng Nghymru ac un yn Affrica am bob plentyn a enir yng Nghymru.

34. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn defnyddio dull arweinyddiaeth trwy ei phecyn o ddiwygiadau deddfwriaethol gyda Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Bil yr Amgylchedd.

35. Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ei gwasanaeth Cymru Effeithlon yn ddiweddar, gwasanaeth sy'n darparu un man cyswllt ar gyfer pobl (gan gynnwys busnesau, cymunedau, mudiadau gwirfoddol a'r sector cyhoeddus) i roi cymorth iddynt gyda defnyddio adnoddau megis ynni, deunyddiau a dŵr yn fwy effeithlon. Gall y gwasanaeth roi cyngor i bobl ynghylch ffrydiau cyllido posibl i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd, sydd nid yn unig yn lleihau allyriadau ond sydd hefyd yn arbed arian i unigolion a chymunedau.

36. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno gweithio gyda Grwpiau Ffydd i helpu Cymru i leihau allyriadau ac i feithrin cadernid cymunedau yn y cyfnod cyn y negodiadau rhyngwladol yn ddiweddarach eleni ym Mharis. Gwahoddir y Fforwm i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nodau hyn.

37. Yn ystod y drafodaeth fe wnaed y pwyntiau canlynol:

- 'Pererindod werdd' – mae'r cysyniad hwn yn archwilio sut y gellid mynd ar bererindod yn y ffordd fwyaf eco-gyfeillgar gan gynnwys agweddau ar deithio a dewis gwestai eco-gyfeillgar. Mae hyn yn rhywbeth a allai gael ei ystyried yng Nghymru lle mae twristiaeth i safleoedd crefyddol yn fwyfwy poblogaidd. Rhoddodd Viv Bartlett ddatganiad i Lucy gan y Gymuned Ryngwladol Baha'i ynghylch gweithredu byd-eang dros yr hinsawdd a datblygu.

- Gallai fod yn ddefnyddiol pe bai Swyddogion yn creu cysylltiadau â Menter John Ray – elusen addysgol Gristnogol sydd ag adnoddau defnyddiol.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Cyflwyniad gan y Parch Mark John am y Gwasanaeth Caplaniaeth yng Ngharchardai Ei Mawrhydi yng Nghymru**

38. Eglurodd Mark ei bod yn ofynnol i'r holl gaplaniaid mewn carchardai gael eu cymeradwyo trwy eu cymunedau ffydd a bod hyn yn cael ei oruchwylio gan Bencadlys Caplaniaeth NOMS. Ni all caplaniaid gael eu penodi na gweithio o fewn Gwasanaeth Carchardai EM (GCEM) heb y gymeradwyaeth hon trwy eu cymunedau ffydd.

39. Mae oddeutu 1,700 o garcharorion yn GCEM yng Nghymru ac o'r rheiny mae tua 1000 wedi datgan bod ganddynt ffydd. Mae caplaniaid yn cynnal tua 170 o ymweliadau yn ystod yr wythnos. Gall caplaniaid o ffyddoedd gwahanol weithredu fel y caplan sydd ar ddyletswydd am ddiwrnod a chan hynny bydd yn ymweld â charcharorion o unrhyw ffydd neu sydd heb unrhyw ffydd. Gall carcharorion gymryd rhan mewn gwasanaethau a gwyliau crefyddol sy'n gysylltiedig â gwahanol ffyddoedd. Mae'r tîm Caplaniaid yn enghraifft gadarnhaol o waith rhyng-ffydd. Mae'r gwasanaeth Caplaniaeth ar gael i garcharorion 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Mae'r gwasanaeth Caplaniaeth mewn carchardai'n dymuno cydweithio'n agosach gydag aelodau o'r Fforwm Cymunedau Ffydd a chydag arweinwyr gwahanol gymunedau ffydd. Dywedodd Mark ei fod yn croesawu mwy o gynrychiolaeth o wahanol ffyddoedd yng ngwasanaeth caplaniaeth GCEM. Eglurodd Naran Patel fod Cyngor Hindwiaid Cymru yn dymuno cefnogi'r gwasanaeth trwy gyflwyno Caplan Hindŵ o'r gymuned Hindŵaidd yng Nghaerdydd.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Unrhyw Fater Arall**

**Dathliadau Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop**

40. Atgoffodd y Prif Weinidog y Fforwm y bydd hi'n 70 mlynedd ers Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop ar 8 Mai. I nodi'r achlysur, mae penwythnos o ddigwyddiadau coffa a dathliadau'n cael eu trefnu ledled y DU o 8-10 Mai. Dywedodd y Prif Weinidog ei fod yn gobeithio y bydd y Fforwm yn rhannu'r wybodaeth a ddosbarthwyd yn flaenorol am ddigwyddiadau arfaethedig yng Nghymru gyda'r cymunedau ffydd fel eu bod yn gallu bod yn rhan o'r digwyddiadau coffa a'r dathliadau.

**Datganiad am y trasiedïau diweddar ym Môr y Canoldir**

41. Awgrymodd Aled Edwards fod y Fforwm Cymunedau Ffydd yn cyhoeddi datganiad yn mynegi cydymdeimlad y Fforwm gyda'r dioddefwyr ac yn mynegi diolch am waith yr asiantaethau a fu'n gefn i'r rhai a oroesodd. Roedd y Prif Weinidog yn cytuno. **(Gweithredu: Fforwm Cymunedau Ffydd)**

**Dadorchuddio cerflun Mahatma Ghandi**

42. Cyhoeddodd Cyngor Hindwiaid Cymru y bydd dadorchuddiad swyddogol cerflun Mahatma Ghandi yn cael ei gynnal ar 2 Hydref ym Mae Caerdydd. Disgwylir y bydd seremoni'n cael ei chynnal ar 2 Hydref bob blwyddyn wedi hynny. Bydd aelodau'r Fforwm Cymunedau Ffydd yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol.

**Llythyr o gefnogaeth ar y cyd gan Gynghrair Efengylaidd Cymru a Chyngor Mwslimiaid Cymru**

43. Mae datganiad ar y cyd ar hawl yr unigolyn i newid ei grefydd yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Gynghrair Efengylaidd Cymru a Chyngor Mwslimiaid Cymru.

**Lansio'r Ymgynghoriad ar yr Amcanion Cydraddoldeb ar 20 Ebrill.**

44. Bydd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn ysgrifennu at aelodau'r Fforwm ynghylch lansiad heddiw a sut y gallant fod yn rhan ohono.
**(Gweithredu – Yr Ysgrifenyddiaeth)**